

PRIFFYRDD, CYMRU

2017 RHIF 8

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (HEN SAFLE
FFLATIAU, TRE NEWYDD, NEWTOWN,
GLYNEBWY) 2017**

Gwnaed 13 Chwefror 2017

Yn dod i rym 17 Chwefror 2017

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Hen Safle Fflatiau, Tre Newydd, Newtown, Glynebwy) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adnewwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Hen Safle Fflatiau, Tre Newydd, Newtown, Glynebwy) 2017" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

(1) 1990 p. 8. Diwygiwyd gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi, ac erthygl 5(b) o Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Canlyniadol) 2006/1281. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

HIGHWAYS, WALES

2017 NO. 8

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (SITE OF
FORMER FLATS, TRE NEWYDD, NEWTOWN,
EBBW VALE) ORDER 2017**

Made 13 February 2017

Coming into Force 17 February 2017

The Welsh Ministers make this Order in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(1).

Title, Interpretation and Commencement

1. (1) The title of this Order is The Stopping Up of Highways (Site of Former Flats, Tre Newydd, Newtown, Ebbw Vale) Order 2017.

(2) In this Order:-

"the Council" ("*y Cyngor*") means the Council of the County Borough of Blaenau Gwent;

"the deposited plan" ("*y plan a adnewwyd*") means the plan entitled "The Stopping Up of Highways (Site of Former Flats, Tre Newydd, Newtown, Ebbw Vale) Order 2017" which accompanies this Order; and

"the developer" ("*y datblygwr*") means the person carrying out the development for which the planning permission has been given;

"the 1990 Act" ("*Deddf 1990*") means the Town and Country Planning Act 1990.

(3) This Order comes into force on the date on which notice that it has been made is published in accordance with section 252(10) of the 1990 Act.

(1) 1990 c. 8. Amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19) and article 5(b) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 9 and Consequential Provisions) Order 2006/1281. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, the functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales and are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30(2) of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006.

Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i gael ei wneud yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 18 Hydref 2016, o dan y cyfeirnod C/2016/0252 ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

Priffyrdd Newydd / y Gwneir Gwelliannau Iddynt

3. Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y darnau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adnewwyd, a'r darn o briffordd y gwneir gwelliannau iddo, a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adnewwyd, a byddant, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(2), yn briffyrdd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffyrdd ac ar gyfer Darparu neu Wella'r Priffyrdd

4. Ni chaniateir cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darnau o briffordd i'w cau;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd a gwell a ddisgrifir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi eu bodloni.

Stopping Up

2. Subject to the provisions of articles 3, 4, 5 and 6 the Welsh Ministers authorise the stopping up of the areas of highway described in Schedule 1 and shown by zebra hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 18 October 2016 under reference number C/2016/0252 and described in Schedule 4 to this Order.

New / Improved Highways

3. There must be created, to the reasonable satisfaction of the Council, the new lengths of highway described in Schedule 2 to this Order and shown by stipple marking on the deposited plan and the length of improved highway described in Schedule 3 to this Order and shown by cross hatching on the deposited plan, which are to be highways which, for the purposes of the Highways Act 1980(2) are highways maintainable at the public expense and the Council is to be the highway authority for them.

Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up and for the Provision or Improvement of the Highways

4. The lengths of highway described in Schedule 1 must not be stopped up until:-

(a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the lengths of highway are to be stopped up;

(b) the developer has provided the new and improved highways as described in Schedules 2 and 3 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;

(c) the development described in Schedule 4 has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to close the highway to allow the development to proceed; and

(d) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a), (b) and (c) of this Article are satisfied.

Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr

5. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darn o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Os na fydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig: 13 Chwefror 2017

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r darnau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

1. Darn petryalog ei siâp o droetffordd (grisiau) ar ochr ddwyreiniol y briffordd o'r enw Tre Newydd sy'n 3 metr yn y man hiraf ac 1.8 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adnewwyd.
2. Darn petryalog ei siâp o droetffordd i'r gorllewin o Sgwâr Harford sy'n 29 o fetrau yn y man hiraf ac 1.2 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adnewwyd.
3. Darn afreolaidd ei siâp o droetffordd i'r gogledd-ddwyrain o Rif 85 Tre Newydd sy'n 16 o fetrau yn y man hiraf ac 1 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adnewwyd.

Statutory Undertakers and Providers

5. Where immediately before the length of highway is stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Duration of this Order

6. If the development described in Schedule 2 has not begun within the relevant period specified in Part 3 of the 1990 Act as being the duration of the planning permission, or the permission is revoked before the end of such period, this Order ceases to have effect upon the cessation of the planning permission

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated: 13 February 2017

Nina Ley
Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

SCHEDULES

(All measurements are approximate)

SCHEDULE 1

Description of the lengths of highway to be stopped up under this Order

1. A rectangular shaped length of footway (steps) located on the eastern side of the highway known as Tre Newydd with a maximum length of 3 metres and a maximum width of 1.8 metres and given the reference A on the deposited plan.
2. A rectangular shaped length of footway located west of Harford Square with a maximum length of 29 metres and a maximum width of 1.2 metres and given the reference B on the deposited plan.
3. An irregular shaped length of footway located north east of No 85 Tre Newydd with a maximum length of 16 metres and a maximum width of 1 metre and given the reference C on the deposited plan.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r darnau newydd o briffordd sydd i'w darparu

1. Darn afreolaidd ei siâp o droetffordd sy'n rhedeg yn gyfochrog ag ochr ddwyreiniol Tre Newydd sy'n 61.9 o fetrau yn y man hiraf a 2 fetr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'D' iddo ar y plan a adnewydw.
2. Darn afreolaidd ei siâp o droetffordd (i gynnwys grisiau newydd) i'r gorllewin o Sgwâr Harford sy'n 40 o fetrau yn y man hiraf ac 1.2 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'E' iddo ar y plan a adnewydw.
3. Darn afreolaidd ei siâp o droetffordd i'r gogledd-ddwyrain o Rif 85 Tre Newydd sy'n 20 o fetrau yn y man hiraf ac 1 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'F' iddo ar y plan a adnewydw.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w wella o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o ran o'r briffordd at bob diben bresennol o'r enw Tre Newydd, i'r gogledd ac i'r gogledd-orllewin o'r Ganolfan Gymunedol ac i'r gorllewin o Sgwâr Harford sy'n 114 o fetrau yn y man hiraf ac 8.5 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'G' iddo ar y plan a adnewydw.

ATODLEN 4

Y Datblygiad

Creu ardal hamdden i gynnwys man chwarae pêl, manau chwarae, tir parc a waliau caergewyll cysylltiedig, clostiroedd a dod â deunyddiau capio ac uwchbridd i'r safle a gwneud gwaith tirlunio ar hen safle Fflatiau Tre Newydd.

SCHEDULE 2

Description of the lengths of new highway to be provided

1. An irregular shaped length of footway that runs parallel with the eastern side of Tre Newydd with a maximum length of 61.9 metres and a maximum width of 2 metres and given the reference D on the deposited plan.
2. An irregular shaped length of footway (to include new steps) located west of Harford Square with a maximum length of 40 metres and a maximum width of 1.2 metres and given the reference E on the deposited plan.
3. An irregular shaped length of footway located north east of No 85 Tre Newydd with a maximum length of 20 metres and a maximum width of 1 metre and given the reference F on the deposited plan.

SCHEDULE 3

Description of the length of highway to be improved under this Order

An irregular shaped length of part of the existing all purpose highway known as Tre Newydd, north and northwest of the Community Centre and west of Harford Square with a maximum length of 114 metres and a maximum width of 8.5 metres and given the reference G on the deposited plan.

SCHEDULE 4

The Development

Creation of a recreational area to include a kick about, play areas, park land and associated gabion walls, enclosures and importation of capping materials and top soil and landscaping at site of former Tre Newydd Flats.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (HEN SAFLE FFLATIAU, TRE NEWYDD, NEWTOWN, GLYNEBWY) 2017

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, darparu ar gyfer y darnau newydd o briffordd fel y'u disgrifir yn Atodlen 2 ac i wella darn o briffordd fel y'i disgrifir yn Atodlen 3. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Hen Safle Fflatiau, Tre Newydd, Newtown, Glynebwy) 2017 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir gweld copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Glynebwy, Stryd Bethcar, Glynebwy NP23 6HH neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1249472/1.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu
- b. na chydymffurfwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 17 Chwefror 2017, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchymynion Cau/ 2017).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (SITE OF FORMER FLATS, TRE NEWYDD, NEWTOWN, EBBW VALE) ORDER 2017

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the Act"), to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice, and provide the new lengths of highway described in Scheduled 2 and to improve a length of highway described in Schedule 3. The stopping up will be authorised only in order to enable the development described in Schedule 4 to be carried out.

The Stopping Up of Highways (Site of Former Flats, Tre Newydd, Newtown, Ebbw Vale) Order 2017 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Ebbw Vale Library, Bethcar Street, Ebbw Vale NP23 6HH or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1249472/1.

If a person is aggrieved by the Order, on the ground that:

- a. it is not within the powers of the Act; or
- b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 17 February 2017 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate legislation/ Non-Statutory Instruments/ Transport / TCPA Stopping Up Orders/ 2017).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r darnau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

4. Darn petryalog ei siâp o droetffordd (grisiau) ar ochr ddwyreiniol y briffordd o'r enw Tre Newydd sy'n 3 metr yn y man hiraf ac 1.8 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adnewyd.
5. Darn petryalog ei siâp o droetffordd i'r gorllewin o Sgwâr Harford sy'n 29 o fetrau yn y man hiraf ac 1.2 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adnewyd.
6. Darn afreolaidd ei siâp o droetffordd i'r gogledd-ddwyrain o Rif 85 Tre Newydd sy'n 16 o fetrau yn y man hiraf ac 1 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adnewyd.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r darnau newydd o briffordd sydd i'w darparu

4. Darn afreolaidd ei siâp o droetffordd sy'n rhedeg yn gyfochrog ag ochr ddwyreiniol Tre Newydd sy'n 61.9 o fetrau yn y man hiraf a 2 fetr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'D' iddo ar y plan a adnewyd.
5. Darn afreolaidd ei siâp o droetffordd (i gynnwys grisiau newydd) i'r gorllewin o Sgwâr Harford sy'n 40 o fetrau yn y man hiraf ac 1.2 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'E' iddo ar y plan a adnewyd.
6. Darn afreolaidd ei siâp o droetffordd i'r gogledd-ddwyrain o Rif 85 Tre Newydd sy'n 20 o fetrau yn y man hiraf ac 1 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'F' iddo ar y plan a adnewyd.

SCHEDULES

(All measurements are approximate)

SCHEDULE 1

Description of the lengths of highway to be stopped up under this Order

1. A rectangular shaped length of footway (steps) located on the eastern side of the highway known as Tre Newydd with a maximum length of 3 metres and a maximum width of 1.8 metres and given the reference A on the deposited plan.
2. A rectangular shaped length of footway located west of Harford Square with a maximum length of 29 metres and a maximum width of 1.2 metres and given the reference B on the deposited plan.
3. An irregular shaped length of footway located north east of No 85 Tre Newydd with a maximum length of 16 metres and a maximum width of 1 metre and given the reference C on the deposited plan.

SCHEDULE 2

Description of the lengths of new highway to be provided

7. An irregular shaped length of footway that runs parallel with the eastern side of Tre Newydd with a maximum length of 61.9 metres and a maximum width of 2 metres and given the reference D on the deposited plan.
8. An irregular shaped length of footway (to include new steps) located west of Harford Square with a maximum length of 40 metres and a maximum width of 1.2 metres and given the reference E on the deposited plan.
9. An irregular shaped length of footway located north east of No 85 Tre Newydd with a maximum length of 20 metres and a maximum width of 1 metre and given the reference F on the deposited plan.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w wella o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o ran o'r briffordd at bob diben bresennol o'r enw Tre Newydd, i'r gogledd ac i'r gogledd-orllewin o'r Ganolfan Gymunedol ac i'r gorllewin o Sgwâr Harford sy'n 114 o fetrau yn y man hiraf ac 8.5 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'G' iddo ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 4

Y Datblygiad

Creu ardal hamdden i gynnwys man chwarae pêl, manau chwarae, tir parc a waliau caergewyll cysylltiedig, clostiroedd a dod â deunyddiau capio ac uwchbridd i'r safle a gwneud gwaith tirlunio ar hen safle Fflatiau Tre Newydd yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 18 Hydref 2016 o dan y cyfeirnod C/2016/0252.

SCHEDULE 3

Description of the length of highway to be improved under this Order

An irregular shaped length of part of the existing all purpose highway known as Tre Newydd, north and northwest of the Community Centre and west of Harford Square with a maximum length of 114 metres and a maximum width of 8.5 metres and given the reference G on the deposited plan.

SCHEDULE 4

The Development

Creation of a recreational area to include a kick about, play areas, park land and associated gabion walls, enclosures and importation of capping materials and top soil and landscaping at site of former Tre Newydd Flats in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 18 October 2016 under reference number C/2016/0252.